


JONES, ROBERT TUDUR (1921-1998), diwinydd, hanesydd eglwysig, a ffigur cyhoeddus



Enw: Robert Tudur Jones

Dyddiad geni: 1921

Dyddiad marw: 1998

Priod: Gwenllian Jones (née Edwards)

Rhiant: Elizabeth Jane Jones (née Williams)

Rhiant: John Thomas Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: diwinydd, hanesydd eglwysig, a ffigur cyhoeddus

Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: D. Densil Morgan

Ganwyd Tudur Jones yn fab i Thomas Jones ac Elizabeth Jane (née) Williams yn Nhyddyn Gwyn, Llanystumdwy, Eifionydd, Sir Gaernarfon, 28 Mehefin 1921. Nyrs oedd y fam a gweithiwr rheilffordd oedd y tad, ac yn y Rhyl, Sir y Fflint, y cafodd Tudur Jones, ei chwaer a'i frawd, eu magu. Annibynwyr selog oedd y teulu, ac yng nghapel Carmel, o dan weinidogaeth y Parchg T. Ogwen Griffith, y byddent yn addoli. Gadawodd Diwygiad 1904 ei ôl yn drwm iawn ar ddefosiwn a duwioldeb y fam a'r tad.

Cafodd Robert Tudur addysg ragorol yn Ysgol Uwchradd y Rhyl o dan athrawon megis Lewis Angell yn y Gymraeg, [T. I. Ellis](#) (y prifathro) yn y clasuron ac A. M. Houghton mewn hanes. Efengyleiddiwr Calfinaidd oedd Houghton (ac yn dad i'r ffisegydd Syr John Houghton FRS) a oedd yn cyfuno parch at ei ddisgyblaeth academiaidd gydag ymroddiad crefyddol diwyo.

Er ennill ohono ysgoloriaeth i astudio yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, plygodd Tudur Jones i bwysau teuluol a mynd i Brifysgol Cymru, Bangor, a dilyn cyrsiau mewn Cymraeg, dan yr [Athro Syr Ifor Williams](#), ac athroniaeth. Graddiodd gydag anrhydedd yn y dosbarth cyntaf mewn athroniaeth yn 1942. Aeth ymlaen i hyfforddi am y weinidogaeth Annibynnol yng Ngholeg Bala-Bangor a'i drwytho yn hanes yr eglwys gan [John Morgan Jones](#), a oedd yn rhyddfrydwr diwinyddol pur flaengar, ac mewn athrawiaeth Gristionogol gan [J. E. Daniel](#). Cenedlaetholwr a lladmerydd Calfiniaeth newydd Karl Barth oedd [Daniel](#), a chafodd Tudur ei hun mewn cydymdeimlad mawr â'i syniadaeth.

Wedi graddio gyda'r marciau uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghyfadrann Diwinyddiaeth Prifysgol Cymru yn 1945, cofrestrodd yng Ngholeg Mansfield, Rhydychen, ar gyfer astudiaethau uwch. Hanes Piwritaniaeth yng Nghymru oedd ei bwnc, o dan gyfarwyddyd Claude Jenkins, Athro Brenhinol a Chanon Coleg Eglwys Crist, a chwblhaodd ei ddoethuriaeth erbyn 1947. Yn ogystal â gosod sylfaen ar gyfer ei wybodaeth fanwl o'r maes, ffrwyth y cyfnod hwn oedd ei gyfrol *Vavasor Powell* (1970). Treuliodd ddau semestr wedyn yn fyfyrwr yng Nghyfadrann Brotestannaidd Prifysgol Strasbourg. Tra oedd ym Mangor bu'n Llywydd y myfyrwyr, ac felly hefyd yn ystod ei gyfnod yng Ngholeg Mansfield. Fe'i hordeiniwyd yn weinidog eglwys Seion, Baker Street, Aberystwyth, yn 1948.

Roedd hi'n amlwg mai fel addysgwr ac ysgolhaig y gallai Tudur Jones wasanaethu ei enwad orau, ac fe'i penodwyd yn athro

Hanes yr Eglwys yng Ngholeg Bala-Bangor yn 1950, yn olynnydd i [Pennar Davies](#). Ym Mangor y byddai'n aros am weddill ei yrfa gan ddilyn [Gwilym Bowyer](#) yn brifathro Bala-Bangor yn 1966 ac yn Athro er anrhydedd yn Adran Diwinyddiaeth y brifysgol yn 1989. Yn ogystal ag ymwneud â materion gwleidyddol, yn olygydd *Y Ddraig Goch* ac yn ymgeisydd seneddol ym Môn dros Blaid Cymru yn 1955 a 1959, roedd y 1950au a'r 1960au yn gyfnod o ddiwydrwydd academiaidd mawr iddo. Llwyddodd ei weithiau sylweddol cynharaf, *Congregationalism in England, 1662-1962* (1962) a *Hanes Annibynwyr Cymru* (1966), er yn ymwneud â'i draddodiad crefyddol ei hun, sef yr Annibynwyr, i osod seiliau newydd ar gyfer y ddealltwriaeth o Brotestaniaeth boblogaidd yn y ddwy wlad ond yng Nghymru yn arbennig. Roedd y feistrolaeth ar ddefnyddiau, treiddgarwch y dadansoddi, yr eglurder ymadrodd ynghyd ag egwyddorion athrawiaethol pendant yn arwydd fod Tudur Jones yn hanesydd eglwysig tra hynod. Bu'n brysur hefyd yn ystod y cyfnod hwn yn cymhwyso'i weledigaeth grefyddol-gymdeithasol at faterion cyhoeddus, nid lleiaf trwy ei newyddiadura. Yn golofnydd yn y misolyn *Barn*, ac o 1967 ymlaen yn wythnosol yn *Y Cymro*, bu'n un o'r rhai a lywiau'r farn gyhoeddus pan oedd Cymru a'r Gymraeg yn dod yn faterion llosg. Iddo ef nid magu pietistiaeth a wnâi Christianogaeth, a'r wedd Galfinaidd arni yn arbennig, ond datgan sofraniaeth Duw yn wyneb seiciwlaeriaeth gynyddol y cyfnod.

Erbyn canol y 1970au roedd ei ddiddordeb hanesyddol wedi symud o'i ymwneud cynnar â'r Piwritaniaid a'r Diwygiad Efengylaidd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gwreiddiau'r argyfwng crefyddol modern yng Nghymru. Cafwyd blaenffwrth hyn yn *Yr Undeb* (1976), cyfrol yn olrhain hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ond mewn gwirionedd yn dadansoddi gwewyr Ymneilltuaeth Gymreig yn awr ei hanterth Fictoraidd. Ei brif waith ar y pwnc hwn oedd ei ddwy gyfrol *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru, 1890-1914* (1981-2) (cafwyd cyfieithiad Saesneg ohonynt, ac o *Hanes Annibynwyr Cymru*, yn 2004) sy'n dadansoddi yn feistraidd ddechrau cwmp a diflaniad y Gymru Galfinaidd roedd ef ei hun yn etifedd mor ddisglair iddi. Nid sylwebydd diduedd mohono, a thrwy gydol yr 1980au a dechrau y 1990au, ymroes yr un mor egniol ag erioed i warchod ei etifeddiaeth gan hybu crefydd efengylaidd yn gyffredinol. Etholwyd ef yn llywydd Cymdeithas Annibynwyr y Byd 1981-5, llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Lloegr a Chymru yn 1985-6 ac yn llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1986-7. Cafodd y radd D. Litt. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1986 (enillodd y DD ar sail ei weithiau cyhoeddedig yn 1968) a phan unwyd Coleg Bala-Bangor a'r Coleg Coffa, Aberystwyth yn 1988, i greu Coleg yr Annibynwyr Cymraeg, parhaodd ym Mangor gan weithio bellach o'r Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol yn y brifysgol. Cydnabyddir yn bur gyffredinol mai Tudur Jones oedd hanesydd crefydd galluocaf Cymru'r ugeinfed ganrif. Roedd yn ffigur crefyddol o bwys ac un o'i phennaf ysgolheigion.

Priododd â Gwenllian Edwards o Borthmadog yn 1948 a bu ganddynt dri mab a dwy ferch. Dilynodd y meibion lwybr eu tad fel gweinidogion ac ysgolheigion gyda'r Annibynwyr. Bu farw yn frawychus o sydyn ar 23 Gorffennaf 1998. Bu'r angladd 28 Gorffennaf a chladdwyd ei weddillion ym Mangor.

Awdur

D. Densil Morgan

Ffynonellau

E. Stanley John (gol.), *Y Gair a'r Genedl: Cyfrol Deyrnged i R. Tudur Jones* (1986), gyda llun

D. Densil Morgan, *Cedyrn Canrif: Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ugeinfed Ganrif* (2001), pennod 7

Robert Pope, 'R. Tudur Jones 1921-98: Congregational minister, church historian and Welsh nationalist', *The Journal of the United Reformed Church History Society* 6 (2000), tt. 529-41

Robert Pope, *Codi Muriau Dinas Duw Anghydfurfiaeth ac Anghydfurfwyr yr Ugeinfed Ganrif* (Bangor 2005), pennod 12
ysgrifau coffa *The Independent*, 27 Gorffennaf 1998

The Daily Telegraph, 30 Gorffennaf 1998

The Times, 17 Awst 1998

Y Tyst, 20 Awst 1998

Seren Cymru, 28 Awst 1998

Y Llan, 28 Awst 1998

Darllen Pellach

Archifau LIGC: [Cymry Ydym Ni... R. Tudur Jones, Darpar-Ymgeisydd Plaid Cymru yn Etholaeth Môn](#)

Archifau LIGC: [Etholaeth Môn... Hydref 15, 1964... R. Tudur Jones, Ymgeisydd Plaid Cymru](#)

Sion Rhys Llwyd, *Tynged Cenedl: cenedlaetholdeb gristnogol R. Tudur Jones* (Pwllheli 2019)

Huw Walters, 'Llyfryddiaeth Dr R. Tudur Jones, 1986–1998', yn R. Tudur Jones, D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor 1998), tt.309–13

Erthygl Wikipedia: [R. Tudur Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [168862231](#)

Wikidata: [Q7274067](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2011-12-16

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

